PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Adroddiad ar Effaith

## 2023-2024



# Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud o fewn Plant yng Nghymru

**Credwn fod pob plentyn ac unigolyn ifanc yng Nghymru yn haeddu cael eu clywed, eu parchu, a bod eu holl hawliau'n cael eu cyflawni.** Dyna pam yr ydym yma – i wrando ar yr hyn sydd bwysicaf iddynt, gweithio'n agos gyda'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, a sicrhau bod eu lleisiau'n cyrraedd y rhai sydd mewn grym. Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall pob unigolyn ifanc ffynnu, gyda'u hawliau'n cael eu cydnabod a'u cyflawni'n llawn.

Fel corff ymbarél cenedlaethol Cymru ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda babanod, plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd, rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc a Llywodraeth Cymru i lunio polisi a deddfwriaeth, gan sicrhau bod hawliau plant yn parhau i fod ar flaen y gad mewn penderfyniadau cenedlaethol.

Mae ein haelodau'n cwmpasu'r sectorau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol. Rydym ni'n eu cysylltu i gyfuno eu cryfderau, ac rydym ni'n hyrwyddo'r gwaith anhygoel maen nhw'n ei wneud i gefnogi pobl ifanc. Yn ogystal, rydym yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc drwy brosiect Cymru Ifanc a phrosiectau eraill a ariennir.



# Cynnwys


Croeso gan Hugh Russell, Prif Weithredwr Plant yng Nghymru ............................ 4

Ein blwyddyn mewn niferoedd ............................ 6

Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i fabanod a'r blynyddoedd cynnar ............................ 8

Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i blant a phobl ifanc ............................ 12

Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i deuluoedd ............................ 16

Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i'n haelodau ............................ 18

Effaith: Ein gwaith dylanwadu gyda'r llywodraeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ............................ 20

Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud trwy hyfforddiant ............................ 24

Y dyfodol ............................ 26







# Croeso gan Hugh Russell, Prif Weithredwr Plant yng Nghymru

**Croeso i Adroddiad ar Effaith cyntaf Plant yng Nghymru.**

Mae Plant yng Nghymru yn bodoli i wneud gwahaniaeth: i'n haelodau, i fabanod, plant, a phobl ifanc, a – thrwy helpu plant i leisio'u barn a llunio polisi – i gymdeithas ehangach yng Nghymru. Mewn blwyddyn lle mae cyllidebau unwaith eto wedi bod yn dynn ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, lle gwelwyd ni'n colli ein chwaer sefydliadau megis Chwarae Teg a Children England, mae'n bwysicach nag erioed i bwysleisio'r gwahaniaeth sylfaenol rydym yn ei wneud, mewn cydweithrediad â'n haelodau. Mae dolen adborth gaeedig wedi'i hymgorffori yn ein ffordd o weithio gyda phlant a phobl ifanc: rydym yn sicrhau bod y rhai sydd wedi rhannu eu llais a'u profiadau yn cael gwybod am ganlyniadau eu cyfraniadau. Gobeithiaf fod yr adroddiad hwn yn cynnig yr un profiad i aelodau, a gaiff ddarllen am y gwahaniaeth sylweddol rydym wedi'i wneud gyda'n gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf.




Mae 2023-24 yn flwyddyn y gallwn edrych yn ôl arni gyda balchder, fel un pan fuom yn dathlu 30 mlynedd o hyrwyddo hawliau plant. Manteisiwyd ar y cyfle i ddathlu llwyddiannau sylweddol y sefydliad dros y cyfnod hwnnw, o lobïo llwyddiannus dros sefydlu swyddfa Comisiynydd Plant yng Nghymru i'n gwaith mwy diweddar i ddylanwadu ar gyflwyno Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Crynhowyd trosolwg o'r cyfraniadau hyn yn daclus mewn llyfr gwych, "Aros, Chwarae, Ymlaen yn Gyflym: Taith Plant yng Nghymru" y gwnaethom gynorthwyo pobl ifanc i'w ysgrifennu eu hunain, ac a gafodd ei lansio yn y Senedd, lle mae llawer o'n hymdrechion i wella gallu plant i gael mynediad at eu hawliau wedi canfod datrysiad ffrwythlon, cydweithredol dros y blynyddoedd.

Wrth gwrs, roedd 2023-24 yn llawer mwy na dathliad hiraethus o gyflawniadau'r gorffennol: fe wnaethom barhau i wthio ymlaen tuag at ein gweledigaeth o Gymru lle mae holl hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu cyflawni. Fe wnaethom ddarparu llwyfan i bobl ifanc gael eu clywed trwy ein gwaith Cymru Ifanc; dylanwadu ar nifer o feysydd polisi'r llywodraeth yn unol â disgwyliadau ein haelodau (yn enwedig ein gwaith i bwyso ar Lywodraeth Cymru ar ei Strategaeth Tlodi Plant ); a darparu hyfforddiant i filoedd o gynrychiolwyr mewn meysydd hollbwysig megis diogelu a hawliau plant.

Darllenwch ymlaen i gael ymdeimlad o'r gwahaniaeth y mae Plant yng Nghymru yn ei wneud.

# Ein blwyddyn mewn niferoedd

Dathlu ein **pen-blwydd yn 30** fel sefydliad elusennol

Cynhaliwyd **290 o sesiynau hyfforddiant** ar bynciau megis diogelu a hawliau plant, gyda **dros 4,000 yn bresennol**

Cyfanswm o **200 o wirfoddolwyr** Cymru Ifanc rhwng 11 a 25 oed

Hwylusodd Cymru Ifanc **643** o bobl ifanc i gymryd rhan mewn **16** o Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru – drwy grwpiau ffocws wyneb yn wyneb

Cyhoeddwyd **34** o straeon newyddion ar ein gwefan gyda **33,032** o ddarllenwyr

Cynhaliwyd **71** cyfarfod o'n **15** Rhwydwaith Polisi Proffesiynol

Cynhaliwyd **24** o sesiynau ymgysylltu â Gweinidogion ar gyfer pobl ifanc drwy gydol y flwyddyn

Bu i ni fynychu **42** cyfarfod a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru

Cynhaliwyd **64** sesiwn drwy'r prosiect Cymru Ifanc, gan gynnwys cyfarfodydd y Bwrdd Cynghori, sesiynau preswyl a sesiynau anwytho gwirfoddolwyr, gan ymgysylltu â thua **640** o bobl ifanc


Cwblhawyd **123** o weithgareddau allanol, gan gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau, ymchwil a gweithgareddau sy'n hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc

Bu i leisiau **3,097** o bobl ifanc gael ei glywed trwy sesiynau ymgysylltu, arolygon, digwyddiadau ac ymgynghoriadau

Bu i ni ddarparu **16** o ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus

Daeth y flwyddyn i ben gyda **310 o aelodau**, (220 sefydliad; 49 unigolyn; a 41 o fyfyrwyr a phobl ifanc)

Bu i ni fynychu **25** cyfarfod a gynullwyd gan asiantaethau eraill



# Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i fabanod a'r blynyddoedd cynnar



Mae Plant yng Nghymru wedi bod yn gweithio i hybu ymwybyddiaeth bod gan fabanod eu meddyliau eu hunain a'u bod yn gallu cyfathrebu o enedigaeth, a'n bod yn gallu gwrando arnynt. Mae gwrando ar fabanod yn eu helpu i deimlo'n ddiogel a bod pobl yn eu deall, gan ganiatáu iddynt fynegi eu hanghenion ac adeiladu sylfaen o ymddiriedaeth ac ymlyniad cadarn. Mae llais baban i'w glywed a'i weld yn y synau a'r symudiadau y mae'n eu gwneud, yn ei ymateb i'r amgylchedd a thrwy ei ryngweithiadau â'r bobl sydd gyda'r baban.

Fe wnaethom lansio prosiect peilot gyda Bwrdd Trawsnewid Blynyddoedd Cynnar Cwm Taf o'r enw 'Gwrando ar Lais y Baban', gan ddefnyddio dulliau creadigol i gefnogi dealltwriaeth o lais y baban a gwella perthnasoedd rhwng rhieni a babanod.

Bu Plant yng Nghymru hefyd yn cefnogi Bwrdd Iechyd Cwm Taf i ddatblygu addewid Llais y Baban a Phlentyn a gwaith ehangach gyda'r Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar, gan edrych ar ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol. Mae hyn wedi eu harwain i gefnogi datblygiad set o adnoddau i rieni ar hawliau babanod a phlant ifanc, o safbwynt a llais y baban a'r plentyn ifanc.






# Yn 2023-24, dyma oedd yr effaith:

Cafodd ein prosiect Gwrando ar Lais y Baban ei werthuso’n gadarnhaol, gyda’r adroddiad yn nodi:

- Roedd y sesiynau'n caniatáu lle i lais y baban, i gael ei adnabod, i'r rhieni wrando arno a'i glywed.
- Roedd y negeseuon allweddol ochr yn ochr â'r sesiynau symud creadigol yn amlwg wedi gwella gwybodaeth, ymwybyddiaeth a hyder rhieni o lais y baban.


Hwylusodd y dysgu hwn sgyrsiau pellach gyda dau awdurdod lleol ychwanegol ar sut y gellir defnyddio’r dull hwn mewn gwasanaethau rhianta a chymorth i deuluoedd

Datblygwyd amrywiaeth o bosteri negeseuon allweddol ac maent wedi'u rhannu'n eang, yn manylu ar fewnwelediadau unigryw i lais a hawliau babanod o safbwynt y baban.

Cefnogodd Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar (CREYN) ddatblygiad pedwar adnodd hawliau plant newydd i rieni, a grëwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adnoddau hyn yn ategu mentrau ehangach Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC).






i'm hanghenion, rydw i'n gwylio iaith dy gorff a mynegiant dy wyneb, a gall hynny fy helpu i deimlo'n ddiogel a helpu fy ymennydd i dyfu a datblygu.'
Gwrando ar fy llais
www.childreninwales.org.uk
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES
'Rydw i'n gwybod fyddwch chi ddim bob amser yn deall beth rydw i'n ceisio'i ddweud, ac mae hynny'n iawn. Siaradwch â fi am beth sy'n digwydd, bydd hynny'n helpu ni i gael hyd i atebion gyda'n gilydd, ac yn helpu fi i wybod beth sy'n mynd ymlaen.'
Gwrando ar fy llais
www.childreninwales.org.uk
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES
'Wrth i ti wrando arnaf fi byddi di'n dod i'm deall i'n well. Rydw i'n dangos hoff a chas bethau trwy syllu, symud,

# Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i blant a phobl ifanc






Rydym yn cynnal rhaglen wirfoddoli a arweinir gan ieuenctid, sef 'Cymru Ifanc', a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu clywed a'u grymuso.

Ategir y gwaith hwn gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc.

Rydym hefyd wedi cyflwyno'r Rhwydwaith Llais Ieuenctid i helpu pobl ifanc i ddeall ac ymgysylltu â democratiaeth a'r broses etholiadol.



# Yn 2023-24, dyma oedd yr effaith:

Trwy ddigwyddiadau, cyfarfodydd, sesiynau preswyl, ymgynghoriadau a Gŵyl Flynyddol Cymru Ifanc, bu i bobl ifanc ymgysylltu a chwrdd â **62 o lunwyr polisi** o Lywodraeth Cymru a **10 aelod o’r Senedd**, gan gynnwys **4 gweinidog**. Fe wnaethant hefyd gyfrannu at **16 ymgynghoriad**.

Lansiwyd y llyfr “Aros, Chwarae, Ymlaen yn Gyflym: Taith Plant yng Nghymru” ac mae **1,284 wedi’i ddarllen** hyd yn hyn. Wedi'i ysgrifennu gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc, mae'n olrhain hanes y sefydliad a'i ymgyrch i roi hawliau plant wrth wraidd y broses o lunio polisïau yng Nghymru.

**Daeth 12 o bobl ifanc yn ymchwilwyr** ar effaith yr argyfwng costau byw ar gynaliadwyedd i bobl ifanc yng Nghymru. Cyhoeddir canfyddiadau eu hymchwil ym mis Tachwedd 2024.

Bu i ni gynnal rhaglen gyfranogiad gyda phobl ifanc 6 i 16 oed ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i archwilio pa mor effeithiol y mae’r diwygiad ADY newydd yng Nghymru yn eu cefnogi. Cawsom gipolwg ac adborth gwerthfawr mewn **25 sesiwn** ar draws **4 ysgol** yng Nghymru.





# Adborth o sesiynau preswyl Cymru Ifanc

“Mae’n rôl foddhaus ac mae’n rhoi ymdeimlad o bwrpas, yn gwneud i chi deimlo y gallwch chi wneud gwahaniaeth.” – Gwirfoddolwr Cymru Ifanc

“Yr hyn rydw i'n ei hoffi am y cwrs preswyl yw fy mod i'n cael fy nghynnwys pan fyddaf fel arfer yn cael fy eithrio” – Gwirfoddolwr Cymru Ifanc

“Y teimlad o falchder o wneud gwahaniaeth. Gall pawb wneud gwahaniaeth yn y byd, hyd yn oed chi” – Gwirfoddolwr Cymru Ifanc



# Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i deuluoedd

Lansiwyd ein Hwb Cyswllt Rhieni Cymru ym mis Mawrth 2024 fel adnodd i rieni a gofalwyr ledled Cymru. Mae'n darparu gwybodaeth, arweiniad, a diweddariadau ar ein prosiectau a'n mentrau. Mae'r Hwb hefyd yn helpu sefydliadau i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, gan gynnig adnoddau sydd wedi'u datblygu ar y cyd trwy grwpiau ffocws gyda'r Rhwydwaith Rhieni yng Nghaerffili.

Dechreuodd ein prosiect 'Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg' ei drydydd cam, gyda chanllawiau ac adnoddau'n cael eu hyrwyddo ledled Cymru fel adnodd allweddol i fynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu sy'n gysylltiedig â thlodi.



## Yn 2023-24, dyma oedd yr effaith:

Fel rhan o ddatblygiadau'r Hwb, gofynnwyd i rieni o'r Rhwydwaith Rhieni yng Nghaerffili rannu eu hanesion a'u siwrneiau. Dywedasant wrthym fod hyn wedi rhoi ymdeimlad o **falchder, hyder a gallu iddynt weld pa mor bell y maent wedi dod** a phwysigrwydd rhannu eu llais. Nod yr hanesion hyn yw ysbrydoli ac annog rhieni eraill i gymryd rhan a chael eu clywed.

Cofrestrodd 202 ysgol newydd i dderbyn ein pecyn cymorth, sef Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Addysg. Daw hyn â'r cyfanswm i **236 ysgol** gyda dros **84,500 o ddysgwyr**, gan ysgogi **newidiadau mewn ymddygiad a pholisïau'r ysgol**.

Dywedodd **100%** o'r ysgolion a dderbyniodd yr adnoddau eu bod wedi cael y rhain yn ddefnyddiol, gyda llawer yn dechrau mynd i'r afael ag o leiaf **2 o'r 5** prif faes a amlygwyd.

Dywedodd **91%** o fynychwyr ein hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dlodi eu bod wedi cael y sesiwn yn ddefnyddiol neu'n llawn gwybodaeth a dywedodd **80%** ei fod wedi gwella eu hymwybyddiaeth o'r mater hwn.

Lansiwyd ein hadnodd newydd i lywodraethwyr ysgol 'Pris Tlodi Disgyblion: Canllaw i Lywodraethwyr' trwy weminarau i **249 o fynychwyr** ym mis Mehefin 2023.

### Adborth ar y Canllaw i Lywodraethwyr

"Mae'r adnoddau a'r cymorth yn hynod ddefnyddiol. Mae'r rhestr wirio a'r cynllun gweithredu wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i mi."

"Rwyf eisoes wedi eu hargymell i ysgolion eraill."

"Er yn drist iawn, roedd hefyd yn ysgogol iawn, a chefais gyfarfod gyda phrifathro ein hysgol y bore wedyn i wneud yn siŵr bod ein hysgol yn gwneud popeth posibl i'n disgyblion."



# Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i'n haelodau

Mae aelodaeth Plant yng Nghymru yn cynnwys unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Yn 2023-24, cafodd yr aelodau ddiweddariadau bob pythefnos o bob rhan o'r sector, cyfleoedd i hyrwyddo diweddariadau ar brosiectau a swyddi gwag gyda'u sefydliadau, mynediad i ddigwyddiadau ac adnoddau unigryw fel gweithdai hyfforddiant a chyfleoedd i rwydweithio, a'r cyfle i gyfrannu at ac ymddangos yn ein cylchgrawn chwarterol, a rennir drwy'r wefan, cyfryngau cymdeithasol, a sianeli e-bost.



# Yn 2023-24, dyma oedd yr effaith:

Daeth y flwyddyn i ben gyda **310 o aelodau**, (220 sefydliad, 49 unigolyn a 41 o fyfyrwyr / pobl ifanc).

Anfonwyd **78 o fwletinau newyddion a diweddariadau perthnasol** i'n haelodau a'n tanysgrifwyr.

Cofrestrodd **3,645 o bobl** i dderbyn ein gwybodaeth reolaidd ar hyfforddiant.

Cafodd **359 o bobl** ein crynodeb i aelodau bob pythefnos.

Bu i ni gyhoeddi **4 rhifyn o'n cylchgrawn**, gan gynnwys erthyglau gan **49 o sefydliadau sy'n aelodau**, yn arddangos eu gwaith hanfodol i gynulleidfa o dros **5,000**.

Yn ein harolwg aelodaeth blynyddol, atebodd **88%** o ymatebwyr "**ydy**" i'r cwestiwn, "A yw'r wybodaeth a gewch gan Blant yng Nghymru wedi cynorthwyo eich sefydliad i gyflawni **gwell canlyniadau** i blant, pobl ifanc, a'u teuluoedd?"

Roedd adborth gan aelodau hefyd yn nodi:

"Roedd gan Blant yng Nghymru **ran allweddol** yn natblygiad ein Tasglu Tlodi Plant."

"Mae'r cynnydd mewn gwybodaeth wedi ein **cynorthwyo ni i wella'r gwaith rydym ni'n ei wneud**."

Gweler yr adran isod i ddysgu am ein heffaith wrth ddylanwadu ar lywodraeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghyd â'n haelodau.



# Effaith: Ein gwaith dylanwadu gyda'r llywodraeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau




PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Adroddiad ar 7fed Arolygon Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd 2023

Karen McFarlane | Hydref 2023

Mewn partneriaeth â END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU / RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU




## Pwy ymatebodd

Ymatebodd ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o bob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. Cafwyd cyfanswm o 371 o ymatebion, ac roedd 84% o'r ymatebwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

Roedd gan yr holl ymatebwyr gylch gorchwyl oedd yn cwmpasu plant, pobl ifanc a/neu deuluoedd. Mae'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phlant a theuluoedd yn gweithio gydag o leiaf 110,000 o deuluoedd bob blwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn amcangyfrif gochelgar










Rydym yn cydweithio ag ystod amrywiol o randdeiliaid i ddylanwadu ar newid ledled Cymru. Trwy ein rhwydweithiau proffesiynol, aelodaeth, prosiectau thematig, ac ymdrechion eiriolaeth, rydym yn cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd allanol, sgyrsiau, cyfryngau, a digwyddiadau i ysgogi effaith.

Cyhoeddwyd ein Hadroddiad ar Ganfyddiadau 7fed Arolwg Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd gan helpu i lunio a llywio strategaeth Llywodraeth Cymru ar dlodi ymhlith teuluoedd.

Fe wnaethom gyflwyno mewn cynhadledd Tlodi Plant ym Mhrifysgol Abertawe; gan ddarparu tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; gweithio gydag ysgolion trwy ein prosiect Pris Tlodi Disgyblion a gweithio gydag awdurdodau lleol i lywio datblygiad strategaethau lleol.

Yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad ar Gyflwr Hawliau Plant yng Nghymru, fe wnaethom dynnu sylw at y materion allweddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc er mwyn llywio sgwrs y Cenhedloedd Unedig â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn Genefa.

Mae ein gwaith mewn perthynas â rhianta a chymorth i deuluoedd wedi cynnwys nifer o ddatblygiadau newydd, yn arbennig ein cymorth gweinyddol ar gyfer dau rwydwaith newydd gan Lywodraeth Cymru – Rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a Rhwydwaith Teuluoedd yn Gyntaf. Rydym yn parhau i reoli'r Rhwydwaith Rhianta cenedlaethol a chyflawni'r arolwg ac adroddiad blynyddol ar Gyflwr Rhianta yng Nghymru a chefnogi rhanddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru i wella eu rhaglenni rhianta, eu hymgysylltiad a'u ffocws.

Parhaodd y 1000 diwrnod cyntaf a'r blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth allweddol, gyda'n gwaith parhaus o hwyluso dau rwydwaith o weithwyr proffesiynol a'n cydweithrediadau ag academyddion, ymarferwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni a'n haelodau wrth i ni barhau i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a chodi pryderon drwy ein rhwydwaith TSANA ynghylch rhoi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith, yn ogystal â llywio meysydd cysylltiedig o waith sy'n cael ei gyflawni gan ymchwiliadau pwyllgor ESTYN a'r Senedd.

Rydym wedi parhau i gynnal sgyrsiau gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithgareddau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n effeithio ar blant mewn gofal, gan gynnwys cefnogi datblygiad y siarter rhianta corfforaethol, deddfwriaeth mewn perthynas â dileu elw o ofal plant, trefniadau eiriolaeth annibynnol a dylanwadu ar ymchwiliad parhaus y Senedd i 'ddiwygio gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal mewn modd radical. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant a'r prosiect Paratoi.

Mae Plant yng Nghymru, ynghyd ag aelodau Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Cymru Gyfan a Fforwm Eiriolaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, yn parhau i ymgyrchu dros ansawdd a digonolrwydd mewn eiriolaeth.

Yn olaf, drwy ein swyddogaeth gynrychioliadol ehangach, gan gynnwys ein cyfraniadau gweithredol i gyfarfodydd Llywodraeth Cymru; ymgysylltu ag aelodau'r Senedd; ein hymatebion i'r ymgynghoriad i ymholiadau Llywodraeth Cymru a'r Senedd, rydym wedi helpu i sicrhau bod y materion sy'n flaenoriaeth i blant, pobl ifanc a'r gwasanaethau proffesiynol yno i'w cefnogi yn parhau i fod yn amlwg.

# Yn 2023-24, dyma oedd yr effaith:

### Tlodi Plant:

Trwy ein rhwydwaith proffesiynol ECPN Cymru, fe wnaethom **ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru** i adnewyddu ei Strategaeth Tlodi Plant a chawsom wahoddiad i ffurfio **Grŵp Cyfeirio Allanol** i gefnogi eu hymdrechion ac i ymgynghori â phlant, rhieni a rhanddeiliaid.

Roedd hyn yn cynnwys **rhoi cyngor i Weinidogion a swyddogion** i lywio cynnwys y diweddariad, yn ogystal â hysbysu am dueddiadau a materion cyfredol.

Bu i'n Adroddiad ar Ganfyddiadau 7fed Arolwg Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd **lywio datblygiad strategaeth Llywodraeth Cymru** a chefnogi rhanddeiliaid yn eu gwaith.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys **371 o ymatebwyr**, gan gynnwys ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol o bob un o'r **22 ardal awdurdod lleol** ledled Cymru ac mae **84%** o ymatebwyr yn gweithio'n uniongyrchol gydag o leiaf **110,000** o blant, pobl ifanc a theuluoedd bob blwyddyn.

Bu i **322 o gynrychiolwyr** neilltuo lle ar Weminar yr Arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd a rhoddwyd sylw i'r canfyddiadau yn **y cyfryngau cenedlaethol** (Newyddion S4C, gwefan Newyddion S4C, WalesOnline).

Adborth o weminar yr arolwg tlodi:

"Diolch; roedd yn ddefnyddiol iawn eich clywed yn trafod y canfyddiadau (er eu bod yn ddigalon). Mae hi mor, mor bwysig i'r wybodaeth hon gael ei rhannu ymhell ac agos. Diolch."

"Gweminar wych. Er fy mod yn ymwybodol o rwystrau, rwyf bellach yn teimlo'n fwy gwybodus gyda data gwirioneddol i ategu pryderon wrth eiriol dros blant, pobl ifanc a theuluoedd."

## Hawliau Plant:

Cafodd llawer o'n hargymhellion yn ein hadroddiad ar Gyflwr Hawliau Plant yng Nghymru eu cydnabod yn **Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig** wrth i ni weithio gyda swyddogion i bwyso i gael cyhoeddi ymateb ffurfiol.

Mae ein gwaith fel rhan o'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant wedi cefnogi swyddogion Llywodraeth Cymru i **ddatblygu eu Hasesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant**, sy'n cael eu datblygu a'u cyhoeddi'n fwy rheolaidd.

Canolbwyntiodd ein Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc ar gyflawni **4 blaenoriaeth** y grŵp:

1. Ar ffiniau gofal
2. Y 1000 diwrnod cyntaf
3. Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
4. Tlodi plant

Mae'r grŵp, a gadeirir gan Jane Dodds AS, yn parhau i sicrhau **ymrwymiad eang gan ein haelodau, aelodau'r Senedd a thimau perthnasol Llywodraeth Cymru.**

Fel rhan o raglen drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar, buom yn gweithio gyda Chwm Taf Morgannwg i gefnogi eu gwaith ar **siarter babanod a phlant**; cyfrannu at **fentrau ar lais y baban** i wella ymgysylltiad â phlant cyn oed ysgol wrth wneud penderfyniadau; ymgysylltu â phartneriaid i gefnogi'r gwaith o gyflawni **prosiect cyfranogiad plant mewn ysgolion** a llywio datblygiad **hawliau plant yn yr adnoddau Blynyddoedd Cynnar** sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru.


## Diwygio ADY:

Parhawyd i weithio gyda chydweithwyr yn y DU i **ddylanwadu ar gynlluniau nodedig Llywodraeth y DU**, gan gynnwys y posibilrwydd o ddiwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol a deddfwriaeth mewn perthynas â phlant sy'n ceisio lloches, drwy ymateb i geisiadau Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Senedd, llofnodi ymgyrchoedd cyrff anllywodraethol ledled y DU a **dylanwadu ar yr agenda hawliau dynol yng Nghymru.**

## Eiriolaeth:

Trwy weithredu'r Dull Cenedlaethol o Eiriolaeth Statudol, rydym wedi cadw **eiriolaeth annibynnol fel hawl allweddol** i blant a phobl ifanc cymwys, ac wedi parhau i ddylanwadu er mwyn i eiriolaeth fod ar gael mewn lleoliadau eraill, gan gynnwys iechyd.

# Effaith: Y gwahaniaeth rydym yn ei wneud trwy hyfforddiant




PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Training Course

**Children's Rights and Participation Series**

**Cyfres Hawliau Plant a Chyfranogiad**

**Book your place today / Archebwch eich lle heddiw**

### Cyrsiau Undydd

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn cwmpasu'r holl ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithredu, arferion, a deialog ag oedolion fel rhieni, gofalwyr, ymarferwyr, aelodau o'r gymuned a'r rhai sy'n gweithio mewn llywodraethau lleol ac ehangach, i greu canlyniadau cadarnhaol a achosi newidiadau. Mae'n agwedd hollbwysig ar eu bywydau, boed gartref, yn eu cymuned, neu mewn lleoliadau addysg.
Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae Plant yng Nghymru yn darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Hawliau a Chyfranogiad Plant ar wahanol adegau o'u bywydau, a bydd yn cyflwyno tri chwrs yn cwmpasu:

- Y Blynyddoedd Cynnar a Hawliau Plant (Plant dan 7 oed)
- Hawliau Plant a Chyfranogiad i Blant o dan 11 oed
- Hawliau Plant a Chyfranogiad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 11-25 oed

**Ni waeth pa grŵp oedran rydych chi'n gweithio gyda nhw, bydd y cyrsiau hyn o fudd i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.**

Bydd y cyrsiau hyn yn mynd â chyfranogwyr ar daith i weld sut mae Hawliau a Chyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn tyfu ac yn datblygu trwy archwilio'r cysyniad o alluoedd esblygol, a chydnabod plant a phobl ifanc fel asiantau gweithredol yn eu bywydau eu hunain, sydd â hawl i gael gwrandawiad, cael eu parchu, eu diogelu, a rhoi annibyniaeth gynyddol wrth arfer hawliau ar wahanol oedrannau a chyfnodau datblygiad ac aeddfedrwydd.

**Archebwch**



### Am yr Hyfforddwr: Siân Bibey

Mae gan Siân dros 10 mlynedd o brofiad o weithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys; prosiectau ieuenctid a chymunedol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol). Yn ystod y cyfnod hwn, mae Siân wedi cael profiad o weithio rheng flaen a rheoli timau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd wedi profi Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, CSE (Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant), CCE (Camfanteisio ar Blant yn Droseddol) ac anawsterau iechyd meddwl ac emosiynol oherwydd o ACEs (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) a thrawma.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae Siân hefyd wedi datblygu a darparu hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth o weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o sut y gall plant a phobl ifanc gael eu heffeithio gan VAWDASV, a'r ffyrdd y mae ymwybyddiaeth o drawma a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar drawma gellir eu gweithredu i gefnogi a diogelu plant a phobl ifanc.

If you are interested in buying one of our training courses specifically for your organisation, Children in Wales can organise this for you. Please contact

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu un o'n cyrsiau hyfforddi yn benodol ar gyfer eich sefydliad, gall Plant yng Nghymru drefnu hyn i chi. Cysylltwch

**training@childreninwales.org.uk**

Ni yw'r prif ddarparwr hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar blant a hawliau plant yng Nghymru.

Eleni, fe wnaethom gyflwyno cyrsiau hyfforddiant a gweithgareddau dysgu diddorol ac ysgogol i gynrychiolwyr ar draws pob lefel o'r gweithlu plant. Roedd y rhain yn cynnwys gweithwyr cymorth i deuluoedd, gweithwyr cymdeithasol, athrawon, staff cymorth mewn ysgolion, gofalwyr maeth, gweithwyr cymorth tai, gweithwyr mewn meithrinfeydd, deintyddion, meddygon teulu a mwy, o'r sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol.

Mae ein cyrsiau yn cyd-fynd â deddfwriaeth, polisi a chanllawiau Cymru, gan ymgorffori astudiaethau achos yn seiliedig ar achosion gwirioneddol o gam-drin ac esgeulustod yng Nghymru.

## Yn 2023-24, dyma oedd yr effaith:

Hyfforddwyd **4,037 o gynrychiolwyr** ar draws **290 cwrs**.

Roedd bron i **150** o'r cyrsiau hyn yn canolbwyntio ar ddiogelu.

Fe wnaethom ddarparu hyfforddiant ar ddiogelu i ymarferwyr ar draws **ystod eang o sectorau**, gan gynnwys practisau meddygon teulu a deintyddion, tai â chymorth, lleoliadau gofal plant, canolfannau cyngor ar yrfaoedd, ysgolion, yn ogystal â gofalwyr maeth a gweithwyr cymorth i deuluoedd.

Gwnaethom **adolygu a diweddaru ein cyrsiau diogelu** i gydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Diogelu, Dysgu a Datblygu, a sefydlwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Rydym wedi arwain y sector wrth helpu sefydliadau i gael mynediad at gyrsiau wedi'u teilwra, a ddarperir ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n gyfleus i staff.

## Adborth

"Byddaf yn defnyddio'r wybodaeth a ddysgais yn ddyddiol yn fy rôl wrth helpu i gefnogi ac eiriol ar gyfer rhieni sydd wedi cael Trawma yn ystod plentyndod." Katy – Adeiladu gwydnwch yn wyneb profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

"Byddaf yn fwy ymwybodol o ymddangosiadau plant ac iaith y corff, gan y gallai ymddangos yn wahanol." Marie – Hyfforddiant Diogelu ar gyfer Unigolyn Dynodedig

"Byddaf yn Gwrando ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud oherwydd weithiau nid yw bob amser yn amlwg beth maent yn cyfeirio ato pan fyddant wedi cael eu cam-drin." Geraint, Gweithiwr Chwarae – Diogelu Grŵp B

# Y dyfodol





Mae llawer i ymfalchïo ynddo yn y canlyniadau yr ydym wedi'u cyflawni yn y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig yng ngoleuni'r cyd-destun y cawsant eu cyflawni ynddo, a oedd yn ansefydlog yn wleidyddol, gydag adnoddau'n dal i gael eu lledaenu'n denau.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y flwyddyn i ddod yn dod â datblygiad cyfeiriad strategol newydd i'r sefydliad. Byddwn yn cydweithio ag aelodau, pobl ifanc, cydweithwyr a chyllidwyr i osod cynllun ar gyfer Plant yng Nghymru sy'n ein galluogi i wneud y mwyaf o'n hadnoddau i gymryd camau breision tuag at Gymru lle mae holl hawliau pob plentyn yn cael eu cyflawni.

O fewn cwmpas y datblygiad strategol hwnnw, byddwn yn ceisio adnewyddu ein harlwy i aelodau, gan gysylltu â'r aelodau presennol i weld beth arall allwn ei wneud i sicrhau bod aelodaeth o Blant yng Nghymru yn cael yr effaith fwyaf ystyrlon bosibl ar eich gwaith.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod llais ieuenctid yn flaenoriaeth i Blant yng Nghymru, gan weithio drwy'r prosiect Cymru Ifanc i ddarparu llwyfan i bobl ifanc leisio'u barn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Y tu hwnt i hynny, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i archwilio sut y gallwn wella eu harferion wrth gymryd rhan, gan ganolbwyntio ar weld mwy a mwy o ddylanwad yr ieuenctid ledled Cymru.

Bydd ein polisi a'n gwaith dylanwadu yn parhau i fod yn flaenoriaeth fawr a byddwn yn ceisio cynnwys aelodau drwy'r amser, mewn ymdrech i adeiladu ar yr effaith a gawsom eleni.

Edrychaf ymlaen at flwyddyn sy'n llawn cydweithio wrth i ni symud ymlaen gyda'n haelodau a phobl ifanc, tuag at ein gweledigaeth ar y cyd o Gymru lle mae holl hawliau babanod, plant a phobl ifanc yn cael eu cyflawni.

**Hugh Russell, Prif Weithredwr Plant yng Nghymru**

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES